Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad ar

# Feithrinfa Do Re Mi Nursery

Capel Horeb
Station Road
Treletert
Hwlffordd
Sir Benfro
SA62 5RY

Dyddiad yr arolygiad:  Mehefin 2025

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

a

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Meithrinfa Do Re Mi Nursery

| | |
|---|---|
| Enw’r lleoliad | Meithrinfa Do Re Mi Nursery |
| Categori’r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | Diane Evans |
| Unigolyn cyfrifol (os yw’n berthnasol) | Diane Evans, Sophia Hughes, Sarah Thomas |
| Person â gofal | Diane Evans |
| Nifer y lleoedd | 33 |
| Amrediad oedran y plant | Babanod – 5 mlwydd oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 11 |
| Nifer y plant sy’n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 4 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun – Dydd Gwener 7.30 – 18.00 |
| Gwasanaeth Dechrau’n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Dwyieithog |
| A yw’r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae’r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi, ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol y bobl sy’n defnyddio’r gwasanaeth neu a allai ei ddefnyddio. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 03/08/2022 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Dyma'r arolygiad cyntaf |
| Dyddiadau’r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 24/06/2025 |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Magu hyder plant wrth ddefnyddio’r Gymraeg.

A2 Parhau i fireinio’r ddarpariaeth er mwyn datblygu annibynniaeth y plant ymhellach.

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae bron bob plentyn yn teimlo'n hapus iawn yn y lleoliad ac yn ymgartrefu'n dda yno. Maent yn ymdopi'n llwyddiannus wrth adael eu rhieni a'u gofalwyr, ac yn amlwg yn teimlo'n ddiogel. Maent yn cael croeso cynnes wrth gyrraedd ac yn mwynhau cwmni eu ffrindiau a'r ymarferwyr wrth gyfarch ei gilydd. Maent yn dangos hoffter amlwg tuag at yr ymarferwyr gan fynd atynt yn hapus a chyfforddus i'w gwahodd i ymuno yn eu chwarae neu i ddarllen stori. Mae bron bob plentyn yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'i gilydd, a gydag ymarferwyr ac ymwelwyr. Maent yn datblygu eu medrau cymdeithasol trwy siarad a thrafod wrth chwarae gyda'i gilydd. Mae plant yn cydweithredu ac yn rhyngweithio'n frwdfrydig wrth chwarae rôl. Er enghraifft, maent yn defnyddio'u dychymyg ac yn gwneud synnwyr o'u byd wrth esgus eu bod yn gwneud paneidiau o de a gweini bwyd i ymarferwyr ac ymwelwyr.

Mae gan blant lais cryf yn y lleoliad. Maent yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau am sut i dreulio'u hamser. Mae plant yn gyfarwydd â'r arferion dyddiol ac wrthi'n brysur yn ymgymryd â'r gweithgareddau sy'n cael eu cynnig iddynt. Mae babanod a phlant bach yn dilyn eu harferion unigol o ran cysgu a bwydo. Maent yn gwneud dewisiadau'n hyderus ac yn mwynhau'r rhyddid i symud o amgylch yr ardaloedd dysgu. Er enghraifft, maent yn elwa o'r rhyddid i ddewis os ydynt am barhau i chwarae dan do neu fynd i chwarae yn yr ardal allanol.

Mae bron bob plentyn yn ymddwyn a rhyngweithio'n dda am eu hoedrannau a'u camau datblygu. Maent yn chwarae'n hapus ar eu pen eu hunain ac ochr yn ochr â'u ffrindiau wrth iddynt ddysgu rhannu a gweithio gyda'i gilydd. Er enghraifft, caiff babanod eu cynorthwyo i gymryd eu tro wrth chwarae â'r uwd yn y twba synhwyraidd. Mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos dyfalbarhad yn eu chwarae a'u dysgu trwy ddefnyddio adnoddau sy'n eu diddori am gyfnodau priodol. Er enghraifft, wrth ddewis a defnyddio eitemau celf a chrefft i greu basged trysor. Mae llawer o blant yn hyderus i arbrofi yn eu hamgylchedd ac yn mwynhau meistroli cyfarpar fel defnyddio'r  fasged pwli ac wrth arbrofi â'r hŵps a jyglo peli tu allan.

Gall y rhan fwyaf o blant ddilyn eu diddordebau eu hunain am gyfnodau hir, sy'n eu galluogi i atgyfnerthu medrau a gwneud penderfyniadau. Er enghraifft, maent yn canolbwyntio'n dda wrth estyn ac ychwanegu cynhwysion yn annibynnol wrth ddilyn cyfarwyddiadau i greu toes. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu eu medrau annibynnol yn dda wrth ddewis adnoddau o gypyrddau, arllwys eu diod amser byrbryd a defnyddio'r tŷ bach a golchi a sychu eu dwylo, ac yna gosod y tywel papur yn y bin yn annibynnol.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Nid oes adroddiad ar ddysgu'r plant. Y rheswm am hyn yw nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol adeg yr arolygiad nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir yn rhywle arall i allu adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae ymarferwyr yn blaenoriaethu diogelwch plant ac yn cynnal gweithdrefnau effeithiol i sicrhau bod y plant yn iach a diogel. Maent wedi cwblhau hyfforddiant amddiffyn plant ac yn hyderus ynglŷn â'r gweithdrefnau cywir i'w dilyn pe bai ganddynt unrhyw bryderon am blentyn. Mae ymarferwyr yn cadw cofrestrau presenoldeb cywir a llyfr ymwelwyr, ac yn cynnal ymarferion tân, sydd oll yn cyfrannu at sicrhau darpariaeth ddiogel i'r plant. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae ymarferwyr wedi mynychu hyfforddiant cymorth cyntaf priodol ac yn cadw cofnodion cywir ar gyfer damweiniau a digwyddiadau. Maent yn adolygu'r cofnodion hyn bob hanner tymor er mwyn adnabod unrhyw batrymau a rhoi camau gweithredu ar waith er mwyn lleihau'r risgiau i blant. Mae'r ymarferwyr yn dilyn polisïau a gweithdrefnau trwyadl mewn perthynas â hylendid ac iechyd a diogelwch. Maent yn dilyn gweithdrefnau cadarn yn ystod cyfnodau byrbryd. Mae ymarferwyr yn annog y plant i olchi eu dwylo ar amseroedd priodol ac yn darparu byrbrydau iach a llaeth neu ddŵr i'w yfed. Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw gyda'r plant.

Mae ymarferwyr yn deall eu cyfrifoldebau i ddiogelu plant ag alergeddau ac mae ganddynt weithdrefnau clir i weinyddu meddyginiaeth. Maent yn sicrhau urddas a phreifatrwydd llwyr wrth ddilyn polisi newid cewynnau ac yn cofnodi'r arferion hyn yn ddyddiol. Maent yn deall eu cyfrifoldebau i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol, ac mae ganddynt rwydweithiau effeithiol a gweithdrefnau pwrpasol er mwyn eu cefnogi.

Mae ymarferwyr wedi ffurfio perthnasoedd agos a naturiol â'r plant ac yn siarad â nhw'n dyner a chlên, gan eu trin â gofal a pharch. Maent yn cyfathrebu'n effeithiol ac yn dathlu llwyddiannau'r plant yn gyson gan roi clod ar lafar, er enghraifft wrth i blentyn rannu adnoddau yn y toes. Mae ymarferwyr yn modelu medrau cymdeithasol yn effeithiol wrth chwarae ochr yn ochr â'r plant ac yn eu cefnogi i ddewis a dethol gweithgareddau ac adnoddau eu hunain tu fewn a thu allan. Maent yn sicrhau bod cyfleoedd cyson a buddiol i blant ddatblygu eu medrau corfforol a threulio amser tu allan yn yr awyr iach.

Mae ymarferwyr yn rhannu gwybodaeth gyson â rhieni drwy sgyrsiau anffurfiol a thrwy adroddiad ffurfiol ar ddiwedd tymor. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn derbyn gwybodaeth gyfredol am ddatblygiad eu plant yn effeithiol.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae ymarferwyr yn meddu ar berthynas dda a dealltwriaeth gadarn o anghenion pob plentyn. Maent yn cydweithio'n dda ac yn defnyddio eu hadnabyddiaeth o'r plant yn effeithiol i gynllunio a darparu ystod eang o brofiadau dysgu pwrpasol sy'n ymateb i, ac yn ennyn diddordeb, y rhan fwyaf o blant yn effeithiol. Maent yn darparu amgylchedd symbylus sy'n hybu'r plant i fod yn ddysgwyr chwilfrydig a hyderus. Maent yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i blant barchu eraill a gofalu am eu hamgylchedd, er enghraifft wrth dyfu llysiau yn yr ardd natur.

Mae ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd buddiol i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd plant. Maent yn cymell plant yn effeithiol i greu marciau gydag amrywiaeth o gyfryngau a'u hannog i rifo a didoli darnau o arian i flychau trysor ac i enwi siapiau. Mae ymarferwyr yn dechrau magu hyder y rhan fwyaf o blant i ddefnyddio Cymraeg trwy ganu rhigymau a chyflwyno geirfa allweddol fel 'llaeth', 'dŵr' a 'chwarae'. Er hyn, cyfyng yw'r cyfleoedd i blant ddatblygu eu dealltwriaeth o eirfa ehangach a phrin maent yn cael eu hannog i ymateb yn Gymraeg.

Mae ymarferwyr yn darparu gweithgareddau sy'n cynnal diddordeb a dyfalbarhad y rhan fwyaf o blant yn dda. Er enghraifft, maent yn dal diddordeb plant trwy gyflwyno bocs cardfwrdd a'i ddefnyddio i greu llong môr ladron, ac mae ymglymiad y plant yn amlwg wrth iddynt gydweithio i greu ffenestri a'i addurno. Yn sgîl y weithgaredd hon, mae plant yn datblygu medrau modur mân yn llwyddiannus wrth ddefnyddio sisyrnau, tâp a chyllell fach cyn marcio gyda phensiliau lliw. Yna, maent yn ysgogi'r plant i osod pob peth ynghyd yn ofalus. Mae'r ymarferwyr yn darparu adnoddau priodol i ddatblygu medrau digidol y plant fel camerâu i dynnu ffotograff o'i gilydd a chyfrifiannell i gyfrifo costau mewn siop.

Mae ymarferwyr yn hyrwyddo cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu medrau corfforol a chreadigol y plant. Er enghraifft, maent yn annog y plant i fentro ac arbrofi wrth gynnig amrywiaeth o gynhwysyddion i lenwi ac arllwys dŵr, ac wrth ddarparu ystod o ddeunyddiau creu ar gyfer tanio'r dychymyg. Mae dulliau addysgu cadarn yr ymarferwyr yn arwain y plant i feddwl, cydweithio a datrys problemau yn eu chwarae. Er enghraifft, maent yn herio'r plant i archwilio ac arbrofi gyda gwahanol mathau o flociau er mwyn creu tyrrau a phontydd sy'n ddigon cryf a chadarn iddynt deithio ar eu traws.

Mae ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau arsylwi priodol i asesu datblygiad y plant gan addasu'r ddarpariaeth yn bwrpasol yn sgîl y wybodaeth hon. Er enghraifft, ar ôl adnabod bod plant yn cael trafferth gyda medrau echddygol manwl, addaswyd y ddarpariaeth trwy gyflwyno gweithgareddau ymarferion cynhesu bysedd, fel defnyddio gefeiliau

mawr i godi a didoli gwrthrychau. Maent yn cefnogi'r dysgu yn effeithiol wrth chwarae ochr yn ochr â'r plant. Maent yn ymyrryd yn amserol ac yn effeithiol i atgyfnerthu'r dysgu. Fodd bynnag, ar adegau, mae'r ymarferwyr yn gor-arwain y dysgu sydd yn dueddol o gyfyngu cyfleoedd i'r plant gymhwyso eu medrau mwy annibynnol.

At ei gilydd, mae ymarferwyr yn darparu profiadau sy'n cefnogi datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant yn dda. Maent yn annog chwilfrydedd trwy weithgareddau natur, fel tyfu planhigion ffa a chreu ffrâm i sicrhau eu twf. Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd da i blant ddod yn ymwybodol o'u hunaniaeth Gymreig trwy osod cyfoeth o adnoddau Cymreig mewn modd ystyrlon yn yr amgylchedd.

Mae'r ymarferwyr yn darparu gwybodaeth gynhwysfawr am gyflawniadau eu plant yn glir i rieni a gofalwyr. Maent yn darparu adroddiadau cynnydd, yn cyfathrebu dros gyfryngau cymdeithasol, ac yn rhoi adborth llafar wrth ddrws y lleoliad yn rheolaidd.

**Yr amgylchedd:  Da**

Mae arweinwyr yn darparu amgylchedd o ansawdd da sy'n groesawgar a chynnes. Ceir arddangosfeydd yn dangos ambell esiampl o waith celf y plant ynghyd â ffotograffau o'r plant yn ymgymryd â gweithgareddau amrywiol. Mae hyn yn cyfrannu at yr ymdeimlad o berthyn yn llwyddiannus.

Mae ymarferwyr yn goruchwylio'r plant yn ofalus mewn amgylchedd diogel. Mae'r safle yn ddiogel ac mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y drysau ar glo a bod cofnod o bob ymwelydd. Mae arweinwyr yn sicrhau bod y brif gât allanol dan glo ac yn cael ei rheoli'n ofalus. Mae cofnodion cynnal a chadw'r lleoliad yn gyfredol ac mae arweinwyr yn cynnal ymarferion tân er mwyn i'r plant ymgyfarwyddo â'r trefniadau i'w dilyn pe byddai argyfwng. Maent yn sicrhau bod offer diogelu'r amgylchedd yn cael ei wasanaethu'n rheolaidd. Maent yn cynnal asesiadau risg effeithiol ar gyfer yr adeilad, yr ardal allanol, gweithgareddau ac ymweliadau, ac maent yn adolygu'r rhain yn rheolaidd. Mae arweinwyr yn cadw cofrestr o blant ac ymarferwyr yn ofalus, ac yn sicrhau bod cymarebau ymarferwyr i blant yn gywir. Maent yn cynnig ardal benodol sy'n arddangos gwybodaeth am ymarferwyr, polisïau a gweithdrefnau diogelu yn glir.

Mae arweinwyr yn trefnu'r amgylchedd tu fewn a thu allan yn effeithiol gan sicrhau ystod eang o adnoddau ac offer pwrpasol. Maent yn sicrhau bod plant yn elwa ar gyfleusterau da, a dodrefn o ansawdd da ac o faint priodol, i ddiwallu eu hanghenion. Mae'r amgylchedd cyfan yn rhoi cyfle buddiol i ddatblygu annibyniaeth a chwilfrydedd plant. Yn yr ystafelloedd chwarae, darperir cyfleoedd i'r plant fwynhau darganfod ac arbrofi ag adnoddau amrywiol, gan gynnwys offer mathemategol, adnoddau byd bach, offer crefft, chwarae rôl ac adeiladu. Caiff yr adnoddau hyn eu storio ar lefel isel er mwyn galluogi'r

plant i ddewis yn annibynnol heb ymyrraeth oedolyn. Mae'r ardaloedd chwarae a'r offer yn cael eu glanhau'n rheolaidd ac mae'r adnoddau'n lân ac mewn cyflwr da.

Mae adnoddau da ar gael er mwyn hybu ymwybyddiaeth y plant o amrywiaeth ac o ddiwylliannau gwahanol, gan gynnwys llyfrau, doliau a chymeriadau plastig. Mae ymarferwyr yn cynnig gweithgareddau addas yn ystod amseroedd penodol o'r flwyddyn i hybu dealltwriaeth y plant bod gwahaniaethau yn perthyn i'r byd o'u cwmpas.

Mae'r ardal tu allan yn hyrwyddo chwilfrydedd plant a chynnig cyfleoedd addas iddynt, er enghraifft chwarae dŵr a thywod, plannu, adeiladu, ynghyd â chwarae rôl yn y gegin fwd a'r siop llysiau. Maent yn sicrhau amgylchedd caeëdig a diogel tu allan.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:  Da**

Mae arweinwyr wedi creu a rhannu gweledigaeth gadarn yn seiliedig ar ddarparu amgylchedd dysgu gofalgar a difyr ar gyfer yr holl blant. Mae synnwyr clir o waith tîm yn amlwg, ac mae pob un o'r ymarferwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol ac yn cynorthwyo'i gilydd yn dda.

Mae gan yr arweinwyr ddisgwyliadau uchel ohonynt eu hunain, yr ymarferwyr a'r plant, gan sicrhau bod pawb yn cael y cymorth angenrheidiol i wireddu eu potensial. Maent yn arwain y lleoliad yn effeithiol, gan roi lles y plant wrth galon pob agwedd o'r gwaith. Maent yn hybu arferion diogel a diwylliant o ddiogelwch yn llwyddiannus, er enghraifft drwy ddilyn prosesau recriwtio cadarn. Mae datganiad o ddiben y lleoliad yn rhoi darlun cywir i rieni o'r hyn a gynigir.

Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn gwerthuso gwaith y lleoliad yn effeithiol, gan gynllunio gwelliannau ar y cyd. Maent yn defnyddio arsylwadau rheolaidd i ganolbwyntio ar feysydd fel datblygiad proffesiynol ymarferwyr, effeithiolrwydd yr amgylchedd a medrau creadigol y plant. O ganlyniad, mae arweinwyr yn canolbwyntio ar gyflwyno'r gwelliannau cyson sy'n cyfoethogi arferion y lleoliad yn llwyddiannus. Maent yn defnyddio cyllid yn ddoeth, gan gynnwys grant amddifadedd, yn erbyn targedau'r lleoliad yn bwrpasol. Er enghraifft, maent yn cyllido adnoddau amrywiol yn gall, fel ardal blannu, twba dŵr a chegin fwd.

Mae prosesau sefydlu cadarn ar waith, gan gynnwys rhestr hyfforddiant gorfodol a dewisol yn unol ag anghenion ymarferwyr a phlant. Cynhelir sesiynau goruchwylio a gwerthuso rheolaidd, gyda'r ymarferwyr yn cefnogi datblygiad ei gilydd trwy arsylwadau cydweithredol. Mae cyfarfodydd wythnosol yn cynnwys agenda glir, lle trafodir blaenoriaethau, arfer dda a chynnydd.

Mae'r arweinwyr yn rhoi trefniadau pontio pwrpasol ar waith sy'n cefnogi plant yn effeithiol wrth iddynt baratoi i symud i'r ysgolion cynradd lleol. Maent hefyd wedi

datblygu ystod o bartneriaethau buddiol â rhieni, yr awdurdod lleol, grwpiau cymunedol ac asiantaethau allanol sy’n gwella ansawdd y ddarpariaeth a’r deilliannau ar gyfer plant. Er enghraifft, mae rhieni’n teimlo bod croeso iddynt yn y lleoliad, ac maent yn gwerthfawrogi’r ffaith fod gwybodaeth bwrpasol am eu plentyn yn cael ei chyfnewid yn rheolaidd trwy gyswllt o ddydd i ddydd a thrwy gyfryngau cymdeithasol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 27/08/2025